Mumbles Community Council

Minutes of Meeting of the Community & Social Development Committee held on 15th July 2026. At The Ostreme Centre 6.30pm and via TEAMS

Councillors Present: Cllrs Laura Gilbert (Chair) Ian Scott (Vice Chair), and Will Thomas.

Officers Present: Sarah Thyer – Volunteer Co-Ordinator Officer and Ian Hughes – CSO

CSD2607-01	**Apologies:** None
CSD2607-02	**Declarations of Interest** None
CSD2607-03	**To approve the minutes of the previous meeting as a true record.** To approve the minutes of the meeting held on 17th June 2026 as a true record. **RESOLVED** To approve the minutes of the meeting held on 17th June 2026 as a true record
CSD2607-04	**Outstanding Actions from Previous Meetings** The CSO outlined outstanding actions. **RESOLVED** 'Outstanding action' report to be updated by CSO. In addition to the CSO updating the 'action' report the following actions are highlighted within the minutes. **Regarding Action 46 (Mumbles Hill),** The CSO and available Councillors will meet with Sean Hathaway, who manages Mumbles Hill on behalf of SCC on 20.07.2026. **RESOLVED:** The CSO will update all committee members on the outcome of the meeting.

	Regarding Action 47 (CCTV Quotes at Mumbles Skatepark), The Chair, Cllr Gilbert outlined a quote from SCC for £5,000 which includes installation and payment to the energy provider. MCC have budgeted £3,000 for the CCTV installation and Cllr Chris Evans of SCC has agreed to provide the shortfall through his personal allowance. Due to the one quote being considered The Chair, Cllr Gilbert proposed that Financial Regulations be suspended when the SCC quote was being considered. **RESOLVED:** To suspend Financial Regulations during the period when the above proposal is being considered. **RESOLVED:** To accept the quote of £5,000 from SCC for the installation of CCTV at Mumbles Skatepark subject to Cllr Chris Evans arranging for the MCC's budget of £3,000 to be supplemented through his own allowance. **RESOLVED:** To reinstate Financial Regulations following consideration of the above proposal. **N.B.** Further to the above CSO subsequently informed that MCC have a £5,000 budget for the CCCTV installation, however CO will seek a contribution from Cllr Chris Evans. **Regarding Action 48 (Benches nr. Greggs)** The Committee were of the consensus that two three metre brown benches should be installed. At £985 plus VAT each, these are considerably cheaper than the blue benches. An additional cost of £130 plus Vat will be incurred for delivery. **ACTION UPDATE**; CSO to update supplier, (SLPW) and confirm whether delivery cost relates to one or two benches. In addition to confirm that no additional cost will arise through the use of a forklift. **ACTION:** Cllr Thomas to liaise with SCC over installation of benches. **ACTION;** Cllr Gilbert to liaise with RFO/CO over budget and establish whether cost of benches can be met through existing funding including a virement. In the event that existing funds are insufficient for benches a recommendation should go before Full Council in September 2026 proposing that the two benches be purchased.

CSD2607-05	**Mumbles Skate Park - Update** The Chair, Cllr Gilbert outlined how she had paid a recent visit to Mumbles Skate Park and that the 'damage' to the recently created murals was in fact dried mud. Cllr Gilbert stated that this mud had since been cleaned by Ashley Haynes, MCC's ground's person and that there was no damage to the murals and that no further graffiti had been applied to the skate park.
CSD2607-06	**Underhill Park – Youth Club** The Chair, Cllr Gilbert outlined that a proposal had had been submitted by Hannah Hunter, the Events Officer for a Youth Club to be created at The Hub, Underhill Park. The supporting document had been circulated to members of the committee prior to the meeting and included a trial period for the club costing in the region of £8,000. It was the consensus of the committee that whilst this was a worthwhile initiative due to the lack of funding left on the current financial year this project should be postponed until the next budgetary meeting. **RESOLVED: Hannah Hunter to generate a budget proposal form for consideration by Councillors at the budgetary meeting deciding expenditure for the financial year 2027/28.**

Meeting finished 6.54pm

Next Meeting 16th September 2026

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2026 am 6.30pm yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng TEAMS

Cynghorwyr yn bresennol: Y cynghorwyr Laura Gilbert (Cadeirydd), Ian Scott (Is-gadeirydd), a Will Thomas.

Swyddogion yn bresennol: Sarah Thyer – Swyddog Cydlynu Gwirfoddolwyr, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

CSD2607-01	**Ymddiheuriadau:** Dim
CSD2607-02	**Datganiadau o fuddiant** Dim
CSD2607-03	**Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2026 fel cofnod cywir. **PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2026 fel cofnod cywir
CSD2607-04	**Camau gweithredu heb eu cwblhau o gyfarfodydd blaenorol** Amlinellodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau y camau gweithredu a oedd heb eu cwblhau. **PENDERFYNWYD:** Bod y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn diweddaru'r adroddiad ar y 'camau gweithredu heb eu cwblhau'. Yn ogystal â'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn diweddaru'r adroddiad 'camau gweithredu', mae'r camau gweithredu canlynol wedi'u hamlygu yn y cofnodion.

	Ynghylch Cam Gweithredu 46 (Bryn y Mwmbwls), bydd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau a'r cynghorwyr sydd ar gael yn cyfarfod â Sean Hathaway, sy'n rheoli Bryn y Mwmbwls ar ran Cyngor Dinas a Sir Abertawe, ar 20 Gorffennaf 2026. **PENDERFYNWYD:** Bydd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i holl aelodau'r pwyllgor ar ganlyniad y cyfarfod. **Ynghylch Cam Gweithredu 47 (Dyfynbrisiau teledu cylch cyfyng ym Mharc Sglefrio'r Mwmbwls),** amlinellodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Gilbert, ddyfynbris gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe am £5,000 sy'n cynnwys ei osod a thalu'r darparwr ynni. Mae Cyngor Cymuned y Mwmbwls wedi cyllidebu £3,000 ar gyfer gosod y system deledu cylch cyfyng ac mae'r Cynghorydd Chris Evans o Gyngor Dinas a Sir Abertawe wedi cytuno darparu'r diffyg trwy ei lwfans personol. Oherwydd mai un dyfynbris sy'n cael ei ystyried, cynigiodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Gilbert, y dylid atal y Rheoliadau Ariannol tra byddai dyfynbris Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn cael ei ystyried. **PENDERFYNWYD:** Atal y Rheoliadau Ariannol yn ystod y cyfnod pan fydd y cynnig uchod yn cael ei ystyried. **PENDERFYNWYD:** Derbyn y dyfynbris o £5,000 gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe ar gyfer gosod system deledu cylch cyfyng ym Mharc Sglefrio'r Mwmbwls yn amodol ar y Cynghorydd Chris Evans yn trefnu i gyllideb Cyngor Cymuned y Mwmbwls o £3,000 gael ei hategu trwy ei lwfans ei hun. **PENDERFYNWYD:** Adfer Rheoliadau Ariannol ar ôl ystyried y cynnig uchod. **D.S.** Ynglŷn â'r uchod, hysbysodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn dilyn hyn fod gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls gyllideb o £5,000 ar gyfer gosod y teledu cylch cyfyng, ond, bydd y Prif Swyddog yn ceisio cyfraniad gan y Cynghorydd Chris Evans. **Ynghylch Cam Gweithredu 48 (Meinciau ger Greggs)** Roedd y pwyllgor o'r farn gyffredinol y dylid gosod dwy fainc frown tri metr, am £985 ynghyd â TAW yr un. Mae'r rhain yn sylweddol rhatach na'r meinciau glas. Bydd cost ychwanegol o £130 ynghyd â TAW yn cael ei godi am ddosbarthu'r meinciau. **DIWEDDARU'R GAM GWEITHREDU:** Bydd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyflenwr, (SLPW) ac yn cadarnhau a yw'r gost dosbarthu yn ymwneud ag un neu ddwy fainc. Yn ogystal bydd yn cadarnhau na fydd unrhyw gost ychwanegol yn codi trwy ddefnyddio wagen fforch godi.

	CAM GWEITHREDU: Y Cynghorydd Thomas i gysylltu â Chyngor Dinas a Sir Abertawe ynghylch gosod meinciau. **CAM GWEITHREDU:** Y Cynghorydd Gilbert i gysylltu â'r Swyddog Ariannol Cyfrifol / Prif Swyddog ynghylch y gyllideb a phenderfynu a ellir talu cost y meinciau trwy gyllid presennol gan gynnwys trosglwyddiad arian. Os nad yw'r cyllid presennol yn ddigonol ar gyfer meinciau, dylid cyflwyno argymhelliad gerbron y cyngor llawn ym mis Medi 2026 yn cynnig prynu'r ddwy fainc.
CSD2607-05	**Yr wybodaeth ddiweddaraf am Barc Sglefrio'r Mwmbwls** Amlinellodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Gilbert, ei fod wedi ymweld â Pharc Sglefrio'r Mwmbwls yn ddiweddar a bod y 'difrod' i'r murluniau a grëwyd yn ddiweddar mewn gwirionedd ond yn fwd sych. Dywedodd y Cynghorydd Gilbert fod y mwd hwn wedi cael ei lanhau ers hynny gan Ashley Haynes, tirmon Cyngor Cymuned y Mwmbwls, ac nad oedd unrhyw ddifrod i'r murluniau ac nad oedd unrhyw graffiti pellach wedi'i ymddangos yn y parc sglefrio.
CSD2607-06	**Parc Underhill – Clwb Ieuenctid** Amlinellodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Gilbert, fod cynnig wedi'i gyflwyno gan Hannah Hunter, y Swyddog Digwyddiadau, ar gyfer creu Clwb Ieuenctid yn yr Hyb, Parc Underhill. Roedd y ddogfen ategol wedi'i dosbarthu i aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod ac roedd yn cynnwys cyfnod prawf ar gyfer y clwb a fyddai'n costio tua £8,000. Barn gyffredin y pwyllgor oedd, er bod hon yn fenter werth chweil oherwydd y diffyg cyllid sydd ar ôl ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, y dylid gohirio'r prosiect hwn tan y cyfarfod cyllidebol nesaf. **PENDERFYNWYD: Bod Hannah Hunter i gynhyrchu ffurflen cynnig cyllideb i'w hystyried gan y cynghorwyr yn y cyfarfod cyllidebol sy'n penderfynu ar wariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2027–2028.**

Daeth y cyfarfod i ben am 6.54pm

Cyfarfod nesaf 16 Medi 2026